Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Carreghofa
# Llanymynech
# Powys
# SY22 6PA

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sirol Carreghofa

Mae Ysgol Gynradd Carreghofa ym mhentref Llanymynech, ar y ffin rhwng Powys a Swydd Amwythig. Mae 103 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd, mewn pedwar dosbarth.

Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw tua 9%. Mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 15% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir ethnig gwyn ac maent yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae tua 3% o ddisgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Ebrill 2013. Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf ym mis Tachwedd 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned feithringar lle mae athrawon a staff cymorth yn adnabod disgyblion unigol yn dda iawn, ac yn diwallu eu hanghenion cymdeithasol ac emosiynol yn effeithiol.  O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn arddangos lefelau lles uchel.  Mae disgyblion o bob oedran a gallu yn ymgymryd â rolau ar nifer o bwyllgorau disgyblion ac mae ganddynt lais cryf ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm diddorol i ddisgyblion, a cheir cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion ddilyn eu diddordebau eu hunain.  O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dysgu, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn cyflawni'n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau siarad a gwrando, darllen a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, y mae'n ei chyfleu'n llwyddiannus.  Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi a herio'r ysgol yn dda.  Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn meddu ar wybodaeth gadarn am eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn eu cyflawni'n effeithiol.  Maent yn cydweithio'n gynhyrchiol gyda chydweithwyr mewn ysgolion lleol eraill i gyflwyno a datblygu mentrau cwricwlaidd newydd.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau ysgrifennu a rhifedd yn annibynnol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

A2 Codi safonau llawysgrifen a chyflwyniad disgyblion

A3 Gwella ansawdd profiadau dysgu yn yr awyr agored yn y cyfnod sylfaen

A4 Gwella prydlondeb disgyblion ar ddechrau'r diwrnod ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn wrth iddynt symud trwy'r ysgol, ac yn cyflawni safonau disgwyliedig, neu well, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rheiny â datganiadau o angen addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol.

Ar draws yr ysgol, mae safonau ym medrau siarad a gwrando disgyblion yn dda. Fel aelodau o bwyllgorau'r ysgol, daw llawer o ddisgyblion yn siaradwyr huawdl ac maent yn cyfathrebu'n hyderus ag oedolion mewn cyd-destunau mwy ffurfiol, er enghraifft wrth roi cyflwyniadau i'r corff llywodraethol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando ac yn ymateb yn gadarnhaol i gwestiynau a chyfarwyddiadau athrawon. Maent yn gwrando'n barchus ar gyfraniadau disgyblion eraill yn ystod trafodaethau grŵp.

Ar draws yr ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn ymateb yn dda i gwestiynau syml amdanyn nhw eu hunain a ble maent yn byw. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu hoffterau a'u casbethau yn llwyddiannus. Maent yn ymestyn eu hatebion i gwestiynau trwy ychwanegu rhagor o fanylion. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o ddisgyblion hyder i siarad Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg ffurfiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen at amrywiaeth o ddibenion, mewn llyfrau ac ar-lein fel ei gilydd, ac maent yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau darllen wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau, gan gynnwys eu gwybodaeth am lythrennau a seiniau, yn effeithiol i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Maent yn darllen gyda rhuglder cynyddol ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r gwahaniaeth rhwng testunau ffuglen a gwybodaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn adnabod geiriau Cymraeg mewn llyfrau ac yn amgylchedd yr ystafell ddosbarth.

Yn ystod cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn darllen llyfrau gan ystod gynyddol o awduron, ac mae llawer ohonynt yn darllen ar goedd gyda mynegiant i gyfleu ystyr. Fe wnaeth disgybl ym Mlwyddyn 4, er enghraifft, bortreadu 'agwedd watwarus' cymeriad mewn stori yn effeithiol iawn. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhesymu a dod i gasgliad gyda hyder cynyddol wrth drafod testunau yn ystod sesiynau darllen ar y cyd. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl, gyda dealltwriaeth dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio'r rhyngrwyd yn llwyddiannus i wneud gwaith ymchwil ac adalw gwybodaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen testunau Cymraeg cyfarwydd gydag ynganiad a dealltwriaeth briodol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau ac at amrywiaeth o ddibenion diddorol. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, yn defnyddio eu medrau ysgrifennu yn annibynnol i safon ddigon uchel yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Hefyd, mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad disgyblion yn amrywio gormod.

Yn ystod y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ysgrifennu llythrennau a geiriau unigol i gyfansoddi brawddegau syml gan ddefnyddio atalnodi sylfaenol. Erbyn Blwyddyn 2, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu gwybodaeth ddifyr am greaduriaid chwedlonol ac yn defnyddio ystod ehangach o atalnodi, gan gynnwys collnodau. Mae llawer ohonynt yn cyfuno seiniau yn gywir er mwyn sillafu geiriau y mae arnynt eisiau eu hysgrifennu.

Ym Mlwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau dyddiadur sensitif am drychineb Aberfan ac yn defnyddio ansoddeiriau, cymariaethau a throsiadau yn dda i ddisgrifio emosiynau pobl. Ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion yn ysgrifennu areithiau brwd yn erbyn hiliaeth, wedi'u hysbrydoli gan araith Martin Luther King, 'Mae gen i freuddwyd'. Mae llawer ohonynt yn strwythuro eu dadleuon yn dda ac yn ysgrifennu'n berswadiol. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gymwys yn Gymraeg gan ddefnyddio'r eirfa a'r patrymau brawddeg y maent wedi eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth gadarn am gysyniadau mathemategol yn ystod gwersi mathemateg. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon rheolaidd ac annibynnol yn eu gwaith ar draws yr holl feysydd dysgu.

Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw ffeithiau rhif i gof yn gyflym. Maent yn deall sut i ddefnyddio graddfeydd syml i falansio dau bwysyn yn gywir a rhagfynegi pwysau gwahanol wrthrychau. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn effeithiol ac yn hyderus. Yn eu prosiect hanes ar y 1960au, er enghraifft, maent yn cyfrifo arwynebedd a pherimedr ysgol newydd ar gyfer plant Aberfan.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu ystod dda o fedrau TGCh wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i ychwanegu llun at destun ac yn cyflwyno eu gwaith yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn creu fideos a chyflwyniadau yn gysylltiedig â'u testun am greaduriaid chwedlonol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn chwilio ar y rhyngrwyd am wybodaeth ac yn mewnosod testun, darluniau a seiniau yn eu cyflwyniadau electronig yn fedrus. Defnyddiant lechi electronig a rhaglenni syml i greu graffiau a chyflwyno data yn effeithiol.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau lles uchel. Maent yn teimlo'n ddiogel a gwerthfawr fel unigolion, ac yn mwynhau'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i aros yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, maent yn deall yr angen i beidio â datgelu cyfrineiriau ar blatfformau dysgu electronig a rennir.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn bwyllog ac yn gyfrifol yn y dosbarth ac wrth symud o gwmpas yr ysgol. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn bwrw ymlaen â'u gwaith yn gyflym ac yn symud rhwng tasgau'n synhwyrol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos parch a chwrteisi tuag at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr. Maent yn gweithio'n hapus yn unigol, mewn parau ac mewn grwpiau. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn trafod eu gwaith yn frwdfrydig.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn cydweithio'n gynhyrchiol yn eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 2 a 3 yn cynorthwyo ei gilydd wrth fesur ac arllwys hylifau i greu diodydd hudol ar gyfer creaduriaid chwedlonol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o hunanreolaeth ac yn parchu cyfraniadau pobl eraill. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn meddu ar ddealltwriaeth o'r angen i ganiatáu i bobl eraill siarad wrth drafod testunau dadleuol.

Nodwedd nodedig o'r ysgol yw'r amrywiaeth eang o gyfrifoldebau y mae disgyblion o bob oedran a gallu yn ymgymryd â nhw trwy'r ystod helaeth o bwyllgorau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hyder wrth ryngweithio â phobl newydd ac oedolion. Er enghraifft, mae arweinwyr digidol yn siarad yn falch am eu prosiect llwyddiannus gyda disgyblion ac athrawon o ysgolion lleol eraill i greu cylched raglenadwy sy'n cofnodi nifer y camau y mae disgyblion yn eu cymryd bob dydd.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau entrepreneuraidd effeithiol trwy gymryd rhan mewn nifer o fentrau busnes. Defnyddiant yr arian a godwyd yn effeithiol i gaffael adnoddau newydd. Er enghraifft, cododd disgyblion y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 arian trwy werthu calendr lluniau y gwnaethon nhw ei greu, gyda chymorth busnesau lleol, i brynu mochyn cwta newydd ar gyfer y dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau iach am ffordd o fyw. Er enghraifft, cynhaliodd aelodau o'r pwyllgor lles gystadlaethau bwyta'n iach ar gyfer disgyblion, ac fe wnaethant greu taflenni ar gyfer rhieni a gofalwyr i hyrwyddo dewisiadau bwyd iach. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cyfleoedd i fod yn gorfforol weithgar, fel rhedeg milltir bob dydd. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod amrywiol o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys hyfforddiant cylchol, y celfyddydau creadigol a chlwb codio sy'n ymestyn eu dysgu ymhellach, ac yn cynorthwyo eu hapusrwydd a'u lles.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r pwyslais cryf y mae'r ysgol yn ei roi ar werthoedd craidd fel annog cynhwysiant a chydraddoldeb i bawb. Mae'r 'uwch-lysgenhadon' ('super ambassadors') yn helpu hyrwyddo'r gwerth hwn. Er enghraifft, fe wnaethant drefnu digwyddiad llwyddiannus gydag ysgolion eraill, a fynychwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, wedi'i seilio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o'u rôl mewn hyrwyddo byw yn gynaliadwy. Er enghraifft, mae disgyblion ar y pwyllgor eco yn siarad yn wybodus am y rhesymau dros ailgylchu ac ailddefnyddio plastig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd mynd i'r ysgol yn rheolaidd, ac maent yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i ennill gwobrau am bresenoldeb da. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion bob amser yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol, ac felly maent yn colli gweithgareddau dysgu ar ddechrau'r bore.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Ceir perthnasoedd gwaith cryf rhwng athrawon, staff cymorth a disgyblion ac maent yn helpu darparu awyrgylch cadarnhaol ar gyfer dysgu ym mhob dosbarth. Mae

athrawon a staff cymorth yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda fel bod bron pob un o'r gwersi yn symud ar gyflymdra da a disgyblion yn dysgu'n effeithiol. Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth da ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol â'u dysgu. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn cyfrannu'n llawn at drafodaethau dosbarth a gweithgareddau grŵp.

Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau ac adnoddau i ddarparu ar gyfer anghenion disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o wersi yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn cynnig cydbwysedd da rhwng mewnbwn athrawon a chyfleoedd i ddisgyblion archwilio eu syniadau eu hunain. Mae athrawon fel arfer yn cynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion hŷn ac iau mewn dosbarthiadau sy'n cynnwys grwpiau oedran cymysg.

Yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn rhoi llawer o gyfleoedd i ddisgyblion yn y dosbarth ddysgu trwy brofiadau ymarferol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau artiffisial a naturiol. Mae'r cyfleoedd hyn yn ennyn diddordeb ac awydd disgyblion i ymgymryd â'u dysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn gwneud y gorau o'r awyr agored i gyfoethogi ac ymestyn dysgu disgyblion, a rhoi profiadau iddynt na allant eu cael dan do.

Mae mwyafrif yr athrawon yn rhoi meini prawf clir i ddisgyblion ar gyfer cwblhau eu tasgau'n llwyddiannus, fel eu bod yn deall yr hyn y mae athrawon yn ei ddisgwyl ohonynt. Mae adborth llafar ac ysgrifenedig athrawon yn helpu disgyblion i wella eu gwaith. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar gyfleoedd rheolaidd i werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion, sy'n eu helpu i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wella.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cyfoethog ac amrywiol ar gyfer disgyblion. Mae cynllunio gofalus yn sicrhau dilyniant ac yn osgoi ailadrodd diangen ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Un o gryfderau penodol y cwricwlwm yw'r cyfle i ddisgyblion ddilyn eu diddordebau eu hunain yn ystod 'oriau athrylith' ('genius hours') ar ddydd Gwener. Mae'r cyfleoedd hyn yn galluogi disgyblion i ddewis beth maent yn ei ddysgu, a sut. Er enghraifft, roedd disgybl ym Mlwyddyn 6 eisiau darganfod pa gynhwysion a dulliau oedd eu hangen arni i wneud cacennau â darnau mân o siocled arnynt. Fe wnaeth disgyblion eraill, a oedd wedi'u hysbrydoli gan ei syniad, ymuno â hi. Gyda'i gilydd, fe wnaethant gwblhau eu prosiect yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol Cymru yn effeithiol. Er enghraifft, mae'n cynnal Eisteddfod flynyddol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac mae disgyblion yn gweithio gydag ymddiriedolaeth gerddoriaeth leol a Sinfonia Cymru i greu cyngerdd. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn dda. Mae siaradwyr Cymraeg yn y gymuned leol yn helpu datblygu medrau Cymraeg disgyblion, ac mae aelodau o'r Criw Cymraeg yn annog disgyblion i siarad Cymraeg y tu allan i wersi. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i effaith y mentrau hyn fod yn amlwg yn hyder gwell y disgyblion wrth iddynt siarad Cymraeg y tu allan i wersi ffurfiol.

Ceir llawer o gyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau siarad a gwrando, darllen a TGCh yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Ym Mlwyddyn 6, mae'r ysgol yn peilota dull arloesol o ddefnyddio TGCh ar gyfer ysgrifennu mewn llawer o wahanol gyd-destunau. Mae'r arwyddion cynnar yn

dangos bod y dull hwn yn codi cymhelliant disgyblion i ysgrifennu, yn enwedig bechgyn, a maint ac ansawdd yr ysgrifennu y maent yn ei gwblhau yn annibynnol. Mewn dosbarthiadau eraill, fodd bynnag, mae athrawon weithiau yn rhoi gormod o gyfarwyddyd ar gyfer tasgau. Er enghraifft, mae taflenni gwaith yn aml yn cyfyngu ar allu disgyblion mwy abl i ddefnyddio eu medrau ysgrifennu a rhifedd yn annibynnol i gynhyrchu gwaith o'r safon orau.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned feithringar sydd â lefel gref o ofal a chydweithrediad rhwng staff a rhieni er budd y disgyblion. Mae athrawon a staff cymorth yn adnabod disgyblion unigol yn dda iawn, ac yn darparu'n effeithiol ar gyfer eu hanghenion cymdeithasol ac emosiynol. Mae ganddynt synnwyr cryf o empathi a thosturi tuag at bob disgybl.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Trwy brofiadau dysgu cynlluniedig, arddangosfeydd gwaith a gwaith disgyblion sy'n arweinwyr digidol, mae'n sicrhau bod disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i aros yn ddiogel wrth weithio ar-lein.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae aelodau o staff yn annog disgyblion i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau yn ystod y dydd, ac ar ôl yr ysgol, sy'n datblygu eu hiechyd a'u ffitrwydd ymhellach. Er enghraifft, mae llawer o gynorthwywyr addysgu yn cynllunio ac yn cynnal gweithgareddau allgyrsiol difyr, fel clwb garddio, sy'n cefnogi hapusrwydd a lles disgyblion.

Ceir gweithdrefnau trylwyr i olrhain cynnydd disgyblion a monitro eu lles yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r pennaeth yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag athrawon dosbarth i drafod cynnydd academaidd pob disgybl, a'i ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn nodi'n effeithiol unrhyw danberfformio neu gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen ar ddisgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ddarparu cymorth priodol ar gyfer y rheiny sydd angen cymorth ychwanegol. Enghraifft dda o hyn yw'r ymyrraeth lwyddiannus i ddatblygu medrau sylfaenol grŵp o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6. Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn cynnwys targedau clir. Mae athrawon a staff cymorth yn rhoi'r cynlluniau hyn ar waith yn effeithiol i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau. Caiff rhieni disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wybodaeth ddefnyddiol am gyflawniadau eu plentyn, ac maent yn cyfrannu'n llawn at adolygiadau o gynnydd eu plentyn.

Caiff rhieni gylchlythyrau a negeseuon e-bost rheolaidd gan yr ysgol yn rhoi gwybod iddynt am bolisïau a digwyddiadau sydd ar y gweill, er enghraifft. Maent yn gwerthfawrogi'r cyswllt a'r wybodaeth ac yn gweld hyn yn fuddiol. O bryd i'w gilydd, fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn rhoi gwybod i rieni'n ddigon cynnar am asesiadau neu weithdrefnau sydd ar y gweill.

Ceir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rôl weithgar mewn awgrymu gwelliannau a gwneud penderfyniadau am agweddau ar fywyd yn yr ysgol. Er enghraifft, cyflwynodd y Criw Cymraeg fenter 'Dilys y ddraig' ('Dilys the dragon') i wobrwyo'r dosbarth sy'n defnyddio'r amrywiaeth ehangaf o batrymau Cymraeg trwy

gydol yr wythnos. Mae'r pwyllgor 'datrys' ('solve it') yn helpu datrys problemau y tynnwyd ei sylw atynt, fel tap sy'n diferu'n barhaus yn un o doiledau'r disgyblion.

Caiff pob un o'r disgyblion gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gwasanaethau ysgol yn cwmpasu ystod eang o destunau yn gysylltiedig â gwerthoedd yr ysgol, fel pwysigrwydd gonestrwydd, dyfalbarhad, parch a chymryd cyfrifoldeb. Maent yn darparu achlysuron gwerthfawr i ddisgyblion ddod at ei gilydd fel cymuned i rannu a myfyrio ar y penderfyniadau a wnânt, a'u perthnasoedd â phobl eraill.

Mae gwobrau am bresenoldeb da a strategaethau perthnasol eraill yn helpu cynnal gwelliannau diweddar ym mhresenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, mae rhywfaint o amwysedd ynghylch amser dechrau ffurfiol yr ysgol. Mae hyn yn effeithio ar ddealltwriaeth rhieni a disgyblion o ran pryd y dylent gyrraedd yn y bore. O ganlyniad, mae ychydig o ddisgyblion yn colli gweithgareddau a chyfleoedd i ddysgu ar ddechrau'r bore yn rheolaidd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, y mae'n ei chyfleu'n dda i ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae ei gweledigaeth yn llwyddo i hyrwyddo datblygiad dysgwyr hapus a llwyddiannus mewn amgylchedd cynhwysol a chefnogol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda mewn llawer o feysydd ac mae ganddynt lefelau lles uchel.

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gweithio'n gydwybodol ac yn cynorthwyo'r pennaeth yn dda. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac maent yn eu cyflawni'n effeithiol. Mae arweinwyr yn annog staff i roi cynnig ar syniadau newydd. Mae hyn yn magu hyder staff i ddatblygu arfer arloesol, er enghraifft o ran defnyddio TGCh i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2.

Mae trefniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol staff yn llwyddiannus. Caiff perfformiad staff ei reoli'n effeithiol, ac mae'n cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion athrawon unigol. Caiff y trefniadau hyn effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, er enghraifft mewn darllen.

Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol â chydweithwyr mewn ysgolion cynradd eraill ac ysgolion uwchradd o fewn y clwstwr lleol. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu eu dealltwriaeth o ofynion y cwricwlwm newydd i Gymru. Caiff hyn effaith fuddiol ar wybodaeth athrawon, ac ar y profiadau dysgu y maent yn eu darparu ar gyfer disgyblion. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r cyfleoedd cynyddol a gaiff disgyblion i ddewis ffocws eu dysgu eu hunain.

Mae arweinwyr yn monitro gwaith yr ysgol yn effeithiol. Maent yn ystyried ystod eang o wybodaeth, gan gynnwys data asesu, craffu ar waith disgyblion ac arsylwadau gwersi. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i ffurfio gwerthusiad teg a chywir ar y cyfan o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn briodol ac yn cysylltu'n uniongyrchol â'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y broses hunanwerthuso. Mae arweinwyr yn cynllunio camau gweithredu addas i fynd i'r afael â blaenoriaethau, ac maent wedi cyflawni gwelliannau mewn llawer o feysydd, fel y medrau Cymraeg a ddangosir gan lawer o ddisgyblion mewn gwersi.

Mae aelodau staff yn rhoi ystyriaeth ofalus i safbwyntiau disgyblion trwy waith nifer o bwyllgorau disgyblion fel rhan o brosesau gwella'r ysgol. Er enghraifft, mae'r pwyllgor llythrennedd wedi cynyddu ystod y llyfrau yn llyfrgell yr ysgol, a bu'r llysgenhadon chwaraeon yn allweddol o ran rhoi cynllun 'milltir bob dydd' ar waith, y mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan ynddo. O gwmpas yr ysgol, mae gan bob pwyllgor fwrdd arddangos dynodedig, sy'n galluogi iddynt gyfleu canlyniadau eu gweithgareddau yng nghymuned yr ysgol. Mae cyfraniadau disgyblion at wella bywyd a gwaith yr ysgol yn gryfder nodedig.

Mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gasglu gwybodaeth uniongyrchol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Defnyddiant y wybodaeth hon i gynorthwyo a herio arweinwyr yn llwyddiannus, er enghraifft i werthuso effaith defnydd cynyddol disgyblion o TGCh ar gyfer ysgrifennu ar eu medrau sillafu.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro cyllideb ac adnoddau'r ysgol yn ofalus. Maent yn targedu cyllid sydd ar gael yn dda i ddiwallu anghenion disgyblion, a chefnogi blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol, er enghraifft i brynu adnoddau TGCh. Defnyddiant y grant datblygu disgyblion yn llwyddiannus i hyrwyddo cynhwysiant a lles disgyblion cymwys, a chefnogi datblygiad eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae aelodau staff yn defnyddio'r amgylchedd dysgu dan do yn effeithiol i gefnogi dysgu disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn manteisio'n llawn ar botensial yr amgylchedd awyr agored, gan gynnwys yr ysgol goedwig, i ddatblygu medrau annibynnol disgyblion. Er enghraifft, ceir ystod gyfyngedig o adnoddau y tu allan i ystafelloedd dosbarth ar gyfer disgyblion yn y cyfnod sylfaen. Nid yw disgyblion yn treulio digon o amser yn yr awyr agored, yn cymhwyso eu medrau corfforol, llythrennedd a rhifedd yn rheolaidd yn eu gwaith ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae arweinwyr yn rhagweithiol o ran ceisio cyllid ychwanegol i wella cymorth. Defnyddiant yr arian a gânt i brynu adnoddau i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, maent wedi sicrhau cyllid gan archfarchnad fawr i ddatblygu'r ardaloedd awyr agored. Yn ychwanegol, mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn cyfrannu cyllid sylweddol i hybu adnoddau'r ysgol. Er enghraifft, fe wnaethant drefnu marciau newydd ar yr iard chwarae i ddisgyblion eu defnyddio wrth iddynt chwarae amser egwyl. At ei gilydd, mae'r ysgol yn defnyddio adnoddau sydd ar gael yn effeithlon er budd yr holl ddisgyblion.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/05/2019